

Ymunwch â Chwm
Join Cwm Taf Taf Morgannwg
Morgannwg

**Croeso i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm
Taf Morgannwg.**

.....
Seiciatreg



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Tabl Cynnwys

Adran | Cynnwys

Tudalen

Paul Mears | Croeso/Welcome

02

Adran Un | Gwybodaeth am ein sefydliad

- Pwy ydym ni | Ein strategaeth 03
- Ein Gwerthoedd | Ymrwymiad EDI | Y Gymraeg 04
- Ymrwymiad i gofal cleifion a lles staff | Ein Cynllun Pobl 05
- Ein lleoliad | Ein hardaloedd 06
- Manteision pobl CTM | Pecyn adleoli 09

Adran Dau | Gwybodaeth am y tîm gwasanaeth

- Cyflwyniad i'r gwasanaeth 10

Adran Tri | Y broses ymgeisio

- Y broses ymgeisio | Cysylltiadau 14
- Cyfryngau Cymdeithasol 15

Paul Mears | CEO



Croeso i Gwm Taf Morgannwg; rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â'n tîm.

Mewn unrhyw rôl gyda ni, byddwch yn gwneud cyfraniad hanfodol at iechyd a lles bron i hanner miliwn o bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf.

Mae ein gwasanaethau'n newid ac yn achub bywydau bob dydd a byddwch mewn sefyllfa freintiedig i weithio dros a gyda'r cymunedau hyn, gan helpu i gadw ein poblogaeth yn iach a sicrhau eu bod yn cael y gofal sydd ei angen arnynt, pryd bynnag y bydd ei angen arnynt.

Yn ganolog i weledigaeth ein bwrdd iechyd mae 'adeiladu cymunedau iachach gyda'n gilydd' ac rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddiwallu anghenion esblygol pobl leol. Drwy weithio gyda ni, byddwn yn eich galluogi i ddefnyddio eich sgiliau, eich profiad a'ch angerdd i lunio cyfraniad eich gwasanaeth eich hun at y weledigaeth hon.

Nid oes erioed wedi bod amser gwell i ymuno â ni, a gobeithio y caf y cyfle i'ch croesawu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Diolch | Thank you

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'P. Mears', with a stylized flourish at the end.

Paul Mears,
Prif Swyddog Gweithredol

Croeso | Welcome

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â BIP Cwm Taf Morgannwg. Rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried rôl gyda ni. P'un a ydych chi'n archwilio dyrchafiad mewnol neu'n adleoli i ymuno â ni, rydym yn deall bod dewis eich cam gyrfa nesaf yn benderfyniad arwyddocaol.

Mae'r pecyn croeso hwn wedi'i gynllunio i roi darlun clir i chi o bwy ydym ni, beth rydym yn ei gynrychioli, a beth allwch chi ei ddisgwyl fel rhan o'n tîm. Rydyn ni yma i'ch cefnogi a'ch tywys bob cam o'r ffordd—a gobeithiwn y byddwch chi'n cael eich ysbrydoli i gymryd y cam nesaf hwnnw i ymuno â CTM!

Pwy ydym ni?

Yn BIP Cwm Taf Morgannwg, byddwch chi'n ymuno â gweithle sy'n teimlo'n debycach i gymuned—lle mae tosturi, gwaith tîm, ac ymdeimlad dwfn o bwrpas yn sbarduno popeth rydyn ni'n ei gwneud. Er y gall gweithio yn y GIG fod yn heriol, ein diwylliant yw beth sy'n ein gwneud ni'n wahanol. Mae ein staff yn dweud pan fyddwn ni ar ein gorau, bod CTM yn teimlo fel teulu: lle mae cydweithwyr yn cefnogi ei gilydd, yn mynd yr ail filltir i gleifion, ac yn ymfalchïo mewn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Byddwch chi'n rhan o dîm sy'n groesawgar, amrywiol, ac wedi'i uno gan ymrwymiad a rennir i ofal. Mae ein staff wedi rhannu enghreifftiau pwerus o'r gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud i gleifion a chymunedau, hyd yn oed o dan bwysau aruthrol. Yn CTM, nid dim ond swydd y byddwch chi'n dod o hyd iddi—fe welwch chi berthyn, pwrpas, a'r cyfle i ffynnu.

Fel un o gyflogwyr mwyaf Cymru, gyda bron i 13,500 o staff ymroddedig, rydym yn gwasanaethu poblogaeth o tua 450,000 o bobl ar draws rhanbarthau bywiog ac amrywiol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae ein gwasanaethau'n cwmpasu tri Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, sawl ysbyty cymunedol, a rhwydwaith eang o gyfleusterau gofal sylfaenol a chymunedol.

A phan fydd y diwrnod gwaith wedi gorffen, mae ein lleoliad yn cynnig y gorau o Dde Cymru—dim ond 20 munud o fywyd bywiog dinas Caerdydd, tirweddau godidog Bannau Brycheiniog, ac arfordir heddychlon Ogwr. P'un a ydych chi'n cael eich denu at egni trefol, tawelwch cefn gwlad, neu dawelwch glan môr, mae CTM yn lle lle gall eich gyrfa a'ch ffordd o fyw ffynnu.

Darganfyddwch fwy am weithio gyda ni yma:

Ymunwch â CTM

[Gwefan BIPCTM Hafan](#)

[#NiYwCTM](#) - Fideo



Ein strategaeth

Nod ein strategaeth yw nodi sut rydyn ni'n datblygu ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion ein poblogaeth wrth i ni edrych at 2030 a'r tu hwnt, a sut gallwn ni weithio gyda'n cymunedau i wneud yn siŵr fod pobl leol yn gallu byw bywyd hapusach ac iachach cyhyd â phosib.



Mae manylion ein [Strategaeth 2030](#) ar gael yma.

“Drwy ein strategaeth, byddwn yn gwneud popeth posibl i sicrhau bod gan bob grŵp oedran yng Nghwm Taf Morgannwg y cyfle gorau i fyw bywydau hapus ac iach a mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel sy'n fforddiadwy, yn effeithlon, yn gynaliadwy ac yn anad dim, yn ddiogel.”


Ein Gwerthoedd



Rydyn ni i gyd ar ein gorau pan rydyn ni'n **byw ein gwerthoedd**. Maen nhw'n ein dwyn ynghyd ac yn ein helpu i **wrando, dysgu a chefnogi** ein gilydd. Maen nhw'n ein gwneud ni'n dîm cryfach. A dyna'n union beth sydd angen i ni fod. Felly gadewch i ni ddangos i'r byd beth allwn ni ei wneud pan fyddwn ni'n rhoi **bywyd i'n** gwerthoedd.



Mae gan bawb yr hawl i siarad a chael eu clywed. Felly rhowch gyfle i bobl siarad yn agored. Gofynnwch gwestiynau, gwrandewch yn ofalus, a defnyddiwch beth rydych chi'n ei ddysgu i wneud gwahaniaeth er gwell.



Rydyn ni i gyd yn gwneud gwahaniaeth, beth bynnag yw ein rôl. Felly byddwch yn garedig ac yn deg. Helpwch bobl, a hynny o'u gwirfodd. A phan fydd rhywun yn haeddu diolch, dywedwch ddiolch.



Mae pob un ohonom ni'n wych. Ond gyda'n gilydd, rydyn ni'n well. Felly cadwch lygad am eraill, dewch â nhw i mewn i'ch penderfyniadau a byddwch yn agored ac yn glir i'w helpu i deimlo'n rhan o'r broses. A phan rydych chi'n dysgu rhywbeth defnyddiol, cofiwch ei rannu!

Ymrwymiad EDI (Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant)

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu mwy o gefnogaeth genedlaethol a sefydliadol i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae wedi cael ei gydnabod bod rhagfarnau a gwahaniaethau anymwybodol yn y ffordd y mae pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu trin yn y gweithle a sut y gall hyn eu helpu i gyflawni eu potensial. Mae hyn yn cael ei alw'n 'gyrhaeddiad gwahaniaethol'.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil (REN) a rhwydweithiau lleol eraill i fynd i'r afael â hyn a chreu newid gwirioneddol, mesuradwy. I gael gwybod mwy, unwaith y byddwch chi'n dechrau gyda BIPCTM, bydd gennych chi fynediad i wefan SharePoint y sefydliad AtOurBest lle byddwch chi'n dod o hyd i ddolenni a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

Y Gymraeg

Cymraeg

Mae ein Bwrdd Iechyd yn falch o gynnig cyrsiau Cymraeg am ddim i'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau a chryfhau eich cysylltiad â chleifion a chydweithwyr. Gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg – hyd yn oed dim ond ychydig o eiriau – wneud gwahaniaeth mawr yn sut mae cleifion yn teimlo.

Mae'n dangos gofal, parch, ac yn helpu i feithrin ymddiriedaeth, yn enwedig gyda chleifion sy'n siarad Cymraeg a allai deimlo'n fwy cyfforddus yn eu hiaith gyntaf.

Ymrwymiad i ofal cleifion a lles staff

Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werthoedd

Mae BIP CTM yn mynd i'r afael yn rhagweithiol â heriau gofal iechyd presennol a rhai'r dyfodol, megis poblogaeth sy'n heneiddio, costau cynyddol, ac afiacheddau lluosog, trwy ymgymryd â rhaglen datblygu sefydliadol. Nod y fenter hon yw meithrin y diwylliant, yr arweinyddiaeth a'r galluoedd angenrheidiol i gyflawni ei hamcanion, gan ddarparu gofal iechyd cynaliadwy yn ariannol a gwella canlyniadau iechyd i'w chymunedau yn y pen draw.

Lles Staff

Mae Gwasanaeth Lles BIP CTM yn hyrwyddo iechyd emosiynol, ariannol a chorfforol staff, gan gynnig gwasanaethau hunangyfeirio. Mae menter Profiad y Gweithiwr (EEx) yn canolbwyntio ar greu amgylchedd gwaith cadarnhaol, gan gydnabod bod gwella lles staff yn gwella gofal cleifion yn uniongyrchol ac yn meithrin balchder yn nyfodol y sefydliad.


Ewch i'n gwefan i gael gwybod mwy am ein cynnig lles staff a phrofiad gweithwyr [yma](#) (neu sganiwch y cod QR).



Ein Cynllun Pobl

Wedi'i lunio gan ein staff, ar gyfer ein staff, mae ein Cynllun Pobl yn adlewyrchu lleisiau dros 4,000 o gydweithwyr rheng flaen, arweinwyr a phartneriaid undebau llafur. Mae'n nodi pedwar Addewid Pobl clir, pob un wedi'i gefnogi gan gamau gweithredu pendant, i'n helpu i adeiladu CTM 2030 lle gall pawb ffynnu.

Cliciwch ar y ddelwedd neu sganiwch y cod QR i weld ein Cynllun Pobl:



Ein lleoliad

Mae Cwm Taf Morgannwg, sydd wedi'i leoli'n ganolog yn Ne Cymru, yn cynnig ffordd o fyw sy'n gyfoethog o ran harddwch naturiol ac ysbryd cymunedol cryf.

Mae'r rhanbarth hwn, sy'n cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Rhondda Cynon Taf, yn cynnwys tirweddau amrywiol o Gymoedd garw sy'n ddelfrydol ar gyfer gweithgareddau awyr agored, ochr yn ochr â byw'n fforddiadwy a chysylltedd rhagorol â dinasoedd mawr.



Ein hardaloedd

Rydym yn darparu gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i'r 450,000 o bobl sy'n byw yn y tair Bwrdeistref Sirol: Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae gan bob Bwrdeistref Sirol brif ysbyty gydag Adran Damweiniau ac Achosion Brys.



Gallwch ddysgu mwy am yr ysbytai hyn a'n lleoliadau eraill [yma](#) neu drwy sganio'r cod QR gyferbyn.



Merthyr Tudful

Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Cwm Cynon yn darparu gwasanaethau cleifion mewnol ac ochr yn ochr â Pharc Iechyd Kier Hardie, mae canolfan tîm cymunedol wedi'i lleoli ym Merthyr Tudful, tref sy'n cael ei dathlu am ei threftadaeth ddiwydiannol gyfoethog, ei hanes diwylliannol a'i harddwch naturiol. Wedi'i lleoli yng nghanol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hardd, mae'r ardal yn darparu amgylchedd dymunol ar gyfer bywyd proffesiynol a hamdden.

Wedi'i lleoli'n strategol yng nghyffordd prif lwybrau trafniadaeth Cymru (A470 De-Gogledd ac A465 Abertawe-Canolbarth Lloegr), mae'r dref yn gwasanaethu fel canolfan ddelfrydol. O'r fan hon, gall rhywun archwilio tirweddau amrywiol Cymoedd De Cymru yn hawdd, mawredd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a dinasoedd bywiog Caerdydd ac Abertawe, ynghyd â Phenrhyn Gŵyr hardd.

Mae Merthyr Tudful yn gyfleus lai na dwy awr i ffwrdd o ddinasoedd mawr gan gynnwys Birmingham, Bryste, Caerfaddon, Cheltenham, Caerloyw, Caerwrangon, Henffordd, a Swindon.

Rhondda Cynon Taf

Wedi'i leoli yn Llantrisant, mae Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn gwasanaethu cymuned amrywiol ac mae gerllaw Caerdydd, gan gynnig ffyrdd o fyw trefol a gwledig. Mae'r ardal yn adnabyddus am ei swyn hanesyddol a'i mynediad cyfleus at gyfleusterau dinas fwy. Yn ogystal, mae gwasanaethau adsefydlu cymunedol a chleifion mewnol yn cael eu darparu yn Ysbyty George Thomas, Treorci, Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd a Chanolfannau Adnoddau Cymunedol yn Nhonypandy.

Rhondda Cynon Taf (RCT), bwrdeistref sirol fywiog yn ne-ddwyrain Cymru, sy'n cael ei ddiffinio gan ei phum cwm: Rhondda Fawr, Rhondda Fach, Cynon, Taf, ac Elái. Gyda phrif drefi fel Pontypridd, Aberdâr, a Llantrisant, mae gan RhCT dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog.

Mae'r "trysor cudd" hwn yn cynnig cymysgedd cymhellol o harddwch naturiol a phrofiadau diwylliannol, gan gynnwys Parc Treftadaeth Rhondda, Profiady Bathdy Brenhinol, a Thŵr Zip World. Mae ei thirwedd unigryw yn ddelfrydol ar gyfer archwilio, ac mae cysylltedd cryf ar gyfer cymudo o fewn De Cymru yn cael ei wella ymhellach, diolch i'w agosrwydd at brif lwybrau fel yr A470 a'r A465 sy'n rhedeg trwy neu gerllaw'r fwrdeistref sirol.

Parc Iechyd Keir Hardie



Ysbyty'r Tywysog Siarl



Ysbyty Cwm Cynon



[Croeso i Gymru / Merthyr Tydfil](#)
[neu defnyddiwch y cod QR](#)

Parc Iechyd Dewi Sant



Ysbyty Brenhinol Morgannwg



Ysbyty George Thomas



[Croeso i Gymru/Rhondda Cynon Taf](#)
[neu sganiwch y cod QR](#)

Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Ysbyty Tywysoges Cymru, Tŷ Lliardiard (CAMHS), Ysbyty Glanrhyd a Chanolfannau Adnoddau Cymunedol wedi'u lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, tref sy'n cynnig cymysgedd o brofiadau arfordirol a chefn gwlad. Mae'r ardal yn darparu ffordd o fyw gytbwys gyda mynediad at draethau, siopau a safleoedd diwylliannol.

Pen-y-bont ar Ogwr, tref a bwrdeistref sirol fywiog yn ne-ddwyrain Cymru. Wedi'i leoli rhwng Caerdydd ac Abertawe, mae gan Ben-y-bont ar Ogwr hanes cyfoethog gyda chestyll canoloesol a gwreiddiau tref farchnad swynol. Mae ei thirwedd yn amrywio o ddyffrynnoedd gogleddol i 12.5 milltir o arfordir trawiadol, gan gynnwys traethau poblogaidd Porthcawl a thwyni tywod unigryw Merthyr Mawr. Gydag atyniadau fel cestyll hanesyddol a gwarchodfeydd natur, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig cymysgedd deniadol o dreftadaeth, harddwch naturiol a chysylltedd.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig cysylltedd cryf trwy draffordd yr M4, sy'n rhedeg trwy ei chanol, a chysylltiadau rheilffordd prif linell sy'n darparu cymudo hawdd i Gaerdydd, Llundain ac Abertawe.

Glanrhyd



Ysbyty Tywysoges Cymru



Heol y Chwarel



[Croeso i Gymru / Pen-y-bont ar Ogwr neu sganiwch y cod QR](#)

Pam gweithio i ni

Mae ymuno â Chwm Taf Morgannwg yn golygu cael croeso cynnes Cymreig. Mae ein gweithlu o bron i 13,500 o staff yn hanfodol nid yn unig i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ond hefyd i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Fel un o gyflogwyr mwyaf y rhanbarth, rydym wedi ymrwymo'n ddwfn i weithio partneriaeth helaeth, cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, a meithrin perthnasoedd cryf gyda'n staff a'r gymuned ehangach.

“Mae ein tîm yn gyfeillgar ac yn ofalgar, gan ddarparu ymdeimlad cryf o deyrngarwch a pherthyn.”

“Mae ein staff yn cael eu denu at y rôl hon oherwydd pobl y Cymoedd a'r gymuned leol rydyn ni'n eu gwasanaethu.”

Manteision pobl CTM

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn credu bod eich cyflogaeth gyda ni yn ymwneud â mwy na chyflog. Mae gennym ni rai o'r pecynnau cyflogaeth mwyaf deniadol:

- **Codiadau cyflog graddol**
- **Hyd at 34 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn.**
- **Cynllun Pensiwn y GIG** - Rydym wedi cofrestru ar gyfer cynllun pensiwn y GIG. Os ydych chi'n ymuno â chynllun pensiwn y GIG bydd y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu 20.68% at eich pensiwn.
- **Gweithio hyblyg** - Mae ein Bwrdd Iechyd yn cynnig polisi gweithio hyblyg er mwyn i chi daro'r cydbwysedd cywir rhwng bywyd a gwaith, gan gynnwys: gweithio o gartref, oriau rhan-amser, opsiynau i rannu swydd, seibiant o yrfa ac ymddeoliad hyblyg.
- **Cymorth iechyd a lles** - Rydym yn cynnig Gwasanaeth Lles ymroddedig i'n holl staff ei ddefnyddio sy'n cynnig ystod eang o gymorth lles.
- **Cyfleoedd dysgu a datblygu** - Rydym yn sicrhau bod cyfle i chi ddatgloi eich potensial gyrfaol, rydym yn cefnogi llwybrau unigol trwy gynnig hyfforddiant arbenigol o ansawdd uchel ac yn partneru ag amrywiaeth o ddarparwyr hyfforddiant i ddarparu cyfres o gymwysterau a chyfleoedd dysgu.
- **Gostyngiadau'r GIG (Cerdyn BlueLight / Gostyngiadau'r Gwasanaeth Iechyd)** - Gall staff y GIG gael gostyngiadau mewn llawer o fusnesau lleol drwy ddangos eu cerdyn adnabod GIG.

Am ragor o wybodaeth am fuddion [cliciwch yma](#) neu sganiwch y cod QR.



Pecyn Adleoli

Os ydych chi'n ystyried ymuno â ni ac y byddai angen i chi adleoli, rydym yn cynnig pecyn adleoli i gefnogi eich symudiad. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: CTM.Resourcing@wales.



Cyflwyniad i Wasanaeth Seiciatreg



Seiciatreg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cynnig Grŵp Gofal Anableddau Dysgu a Iechyd Meddwl cynhwysfawr a strwythuredig, gan ddarparu ystod eang o wasanaethau ar draws tair cyfarwyddiaeth glinigol.

Mae ein gwasanaethau wedi'u llunio gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a ailgyfluniodd ofal iechyd meddwl ledled Cymru. Fel rhan o hyn, mae pawb sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn derbyn gofal sy'n cyd-fynd â Chynllun Gofal a Thriniaeth a gynhyrchwyd ar y cyd.

Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Arbenigol Plant a Phobl Ifanc

Rydym yn darparu ystod o wasanaethau i gefnogi plant a phobl ifanc ar draws ôl troed y bwrdd iechyd. Mae CAMHS Cymunedol yn darparu gwasanaeth amlddisgyblaethol lleol i blant o dan Ran 1 a Rhan 2 o Fesurau Iechyd Meddwl (Cymru). Mae timau mwy arbenigol yn cynnwys y Tîm Ymyrraeth Dwys Cymunedol, Mewngymorth Ysgolion, a Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc. Mae gan bob gwasanaeth berthnasoedd gwaith agos â'r tri awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Rydym yn darparu gwasanaethau arbenigol leol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anhwylderau bwyta, ac yn cynnal y Gwasanaeth Allgymorth Anhwylderau Bwyta a gomisiynwyd yn rhanbarthol.

Mae datblygiadau gwasanaeth cyffrous yn digwydd yn y Gwasanaeth Plant ag Anableddau Dysgu a'r Gwasanaeth Perthynas rhwng Rhieni a Babanod. Mae'r uned cleifion mewnol cyffredinol ranbarthol i bobl ifanc, Tî Lliard, wedi'i lleoli ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae'n gwasanaethu De, Canolbarth a Gorllewin Cymru gyfan. Mae Cyfarwyddiaeth CAMHS a Gwasanaethau Arbenigol hefyd yn darparu mewnbyn CAMHS i'r Uned Bobl Ifanc yng Ngharchar EF y Parc.

Mae'r gwasanaethau arbenigol yn dimau amlddisgyblaethol ar draws y bwrdd iechyd sy'n gweithio gyda grwpiau cleientiaid ar wahân; Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol; Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol; Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis; Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta i Oedolion, Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a Gwasanaethau i Gyn-filwyr. Mae timau eraill yn canolbwyntio ar anghenion clinigol penodol a dulliau triniaeth: Y Llwybr Straen Trawmatig; Tîm Therapi Ymddygiad Dialectig; Tîm Therapi Teuluol. Mae'r timau yn cael eu cefnogi gan dîm arweinyddiaeth rhyngbroffesiynol sydd wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â gofal rhagorol ac amserol. Mae Gwasanaethau Arbenigol hefyd yn cynnwys y Gwasanaeth Ymgynghori Fforensig Pobl Ifanc Cymru Gyfan, a gynhelir gan BIPCTM.

Y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion

Mae gwasanaethau cymunedol yn cynnwys Timau Iechyd Meddwl Cymunedol a Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol sy'n seiliedig ar yr ardal. Mae'r timau cymunedol yn gweithredu o ganolfannau cymunedol ac yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau statudol ac anstatudol. Mae'r gyfarwyddiaeth yn darparu mewnbyn iechyd meddwl gofal eilaidd i Garchar EF y Parc, un o'r carchardai Categori B mwyaf yn Ewrop.

Mae **Timau Triniaeth yn y Cartref i Ddatrys Argyfwng (CRHTs)** wedi'u lleoli ym mhob ysbyty cyffredinol ac yn gweithredu 24/7, gan ddarparu asesiadau argyfwng aciwt a gofal tymor byr yn y cartref. Mae'r timau hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth leihau derbyniadau a chefnogi rhyddhau cynnar, gan weithio'n agos gyda thimau cleifion mewnol a chymunedol.

Darperir **gofal cleifion mewnol** i oedolion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae safle Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynnwys Ward Asesu Aciwt 14 gwely, dwy Ward Triniaeth 14 gwely, ac Uned Gofal Dwys Seiciatrig (PICU) 6 gwely. Mae ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei gwasanaethu gan ward asesu a thrin aciwt i oedolion â 16 gwely gydag un gwely i blant a phobl ifanc, ac Uned Gofal Dwys 8 gwely yn Ysbyty Tywysoges Cymru.

Mae **gwasanaethau adsefydlu** yn cynnwys dau Dîm Estyn Allan ac Adsefydlu cymunedol, uned adsefydlu Lefel 2 yn Nhreorci, a dwy uned adsefydlu Lefel 1—un yn Nhreorci ac un ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl i Oedolion Hŷn:

Mae **Timau Iechyd Meddwl Cymunedol i Oedolion Hŷn** wedi'u lleoli ar draws y bwrdd iechyd, ynghyd â Gwasanaethau Asesu'r Cof lleol sydd hefyd yn cysylltu â Charchar EF y Parc. Mae'r Tîm Ymyrraeth Dementia Arbenigol yn gweithio'n agos gyda chartrefi preswyl a gofal i gefnogi pobl â dementia ac ymddygiadau heriol.

Darperir gofal cleifion mewnol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty Cwm Cynon, Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Glanrhyd. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwelyau asesu aciwt ar gyfer anghenion iechyd meddwl aciwt a gofal dementia. Mae cefnogaeth ddiagnostig lawn ar gael, gan gynnwys sganio EEG, CT, ac MRI wrth i ymgynghorwyr gydweithio'n agos ag ysbytai cyffredinol dosbarth.

Mae **Gwasanaeth Seiciatreg Cyswllt** llawn amser yn cefnogi Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Cwm Cynon, Ysbyty Cwm Rhondda ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer cleifion mewnol 18 oed a hŷn ac yn darparu mewnbwn seiciatrig i Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Mae **darpariaeth y tu allan i oriau** trwy rotas sifftiau gyda'r nos wedi'u lleoli yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae'r rotas hyn yn cydymffurfio â'r EWTD ac yn cynnwys hyfforddeion craidd CAMHS. Mae meddygon ar ddyletswydd yn gweithio'n agos gyda CRHTs i ddarparu asesiadau seiciatrig brys a chyfnelwad ar draws wardiau ledled y rhanbarth. Mae grŵp gofal iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn datblygu rota sengl ar gyfer cyflenwad y tu allan i oriau ac yn gweithio tuag at un ystafell S136.

Hyfforddiant

Mae Grŵp Gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cefnogi cynnig addysg a hyfforddiant meddygol ar gyfer swyddi Hyfforddeion Craidd yn ogystal â Chofrestrwyr Arbenigol.

Mae pob hyfforddai yn cael ei baru â goruchwyliwr clinigol ac addysgol ac mae'r Pwyllgor Hyfforddeion Meddygol yn sicrhau bod lleisiau hyfforddeion yn cael eu clywed mewn trafodaethau rheoli a hyfforddi, gyda chynrychiolaeth mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol. Er mwyn sicrhau bod hyfforddeion seiciatreg



Er mwyn sicrhau y gall hyfforddeion seiciatreg gyflawni eu cymwyseddau mewn therapïau seicolegol, mae swydd goruchwyliwr clinigol pwrpasol newydd wedi'i chreu.

Mae hyfforddeion craidd yng Nghymru yn elwa o gymorth ariannol graddol o hyd at £1,900 ar gyfer arholiadau MRCPsych, ynghyd â mynediad at hyfforddiant o ansawdd uchel, â chymhorthdal, am ddim ond £100 y flwyddyn. P'un a oes gennych ddiddordeb mewn ymchwil, addysgu, neu arweinyddiaeth, mae digon o gyfleoedd i gymryd rhan



Mae gennym hanes cryf o lwyddiant mewn ymchwil fasnachol ac anfasnachol, gan gynnwys gwaith arloesol mewn meysydd fel bioddangosyddion gwaed ar gyfer diagnosis o ddementia.

I'r rhai sydd â diddordeb mawr mewn addysg, mae cefnogaeth ragorol gan AGIC i ddatblygu fel hyfforddwr, gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yma Cymorth Hyfforddwyr Meddygol - AGIC, ynghyd â chyfleoedd i addysgu, arholi, cymryd rhan mewn paneli Adolygiad Blynyddol o Ddatblygiad Cymhwysedd (ARCP) a dilyn llwybrau gyrfa academiaidd.

Arweinyddiaeth

Fel tîm Seiciatreg, rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi integreiddio arweinyddiaeth glinigol o fewn ein cyfarwyddiaethau yn weithredol. Mae ein strwythur arweinyddiaeth yn cynnwys Cyfarwyddwr Meddygol Grŵp Gofal a Chyfarwyddwyr Clinigol ar gyfer pob un o'n meysydd allweddol: Iechyd Meddwl i Oedolion Hŷn, Iechyd Meddwl i Oedolion, CAMHS, a Gwasanaethau Arbenigol. Lle bo'n briodol, mae Cyfarwyddwyr Clinigol yn cael eu cefnogi ymhellach gan Arweinwyr Clinigol dynodedig i wella arweinyddiaeth a darpariaeth gwasanaethau.

Os mai arweinyddiaeth yw eich nod, rydym yn cynnig mentora a chefnogaeth i'ch helpu i dyfu i rolau arweinyddiaeth feddygol a llunio dyfodol gwasanaethau iechyd meddwl.

Rydym yn gwerthfawrogi gweithio rhyngddisgyblaethol mewn cyd-destunau clinigol ac arweinyddiaeth. Mae gan dimau uwch arweinyddiaeth y cyfarwyddiaethau a grŵp gofal Iechyd Meddal ac Anableddau Dysgu fodel pedwarawd, sy'n dwyn ynghyd reolwyr nyrsio, seiciatreg, seicoleg a gweithredol sy'n dangos ymrwymiad cryf i arweinyddiaeth integredig a chydweithredol. Mae ein timau arweinyddiaeth yn cymryd cyfrifoldeb am ansawdd gofal o fewn y gyfarwyddiaeth ac yn gweithio ar y cyd i weithredu atebion i wella gofal a datblygu gwasanaethau i sicrhau bod y gofal gorau yn cael ei gynnig i bobl yn y rhanbarth.

Gwobrau a chydabyddiaeth

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn dathlu cyflawniadau ein staff yn BIPCTM. Mae ein Gwobrau Seren Staff Blynyddol yn darparu llwyfan pwrpasol i gydnabod rhagoriaeth ar draws y sefydliad.

Rydym hefyd wrth ein bodd bod cyfraniadau rhagorol ein tîm wedi cael eu cydnabod yn ehangach, gydag aelodau'n derbyn gwobrau mawreddog.



Ail yn y gwobrau gofal diogel 2024 – ar gyfer y prosiect Cwmpïadau (Gwella Ansawdd)
Gwobrau GIG Cymru 2024



Cydnabyddiaeth Tŷ Llidiard oDdiwylliant
Cadarnhaol 2025

Cysylltiadau academiaidd

Mae gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn golygu bod yn rhan o wasanaeth sy'n gwerthfawrogi rhagoriaeth academiaidd ac yn cefnogi ymchwil ac addysg yn weithredol.




Enillodd ein Fferyllydd Arweiniol i Oedolion Hŷn wobwr poster Gwerthuso Gwasanaeth yng Nghynhadledd Coleg Rhyngwladol Fferylliaeth Iechyd Meddwl yng Nglasgow am ei gwaith Clinig Cof yn RTE.

Mae gennym gysylltiadau cryf â Sefydliad Meddygaeth Seicolegol a Niwrowyddorau Clinigol ym Mhrifysgol Caerdydd, danarweiniad yr Athro Michael Owen, sy'n cysylltu ein clinigwyr ag ymchwil arloesol a gwasanaethau clinigol arbenigol fel Gwasanaeth Ail Farn Seiciatreg Prifysgol Caerdydd (CUPS). Mae staff yn elwa o fynediad at seminarau academiaidd rheolaidd, addysgu ôl-raddedig, a diwylliant ymchwil bywiog.

Mae Ysbyty Athrofaol Llandochoau yn gartref i Ganolfan yr Ôl-raddedigion Seiciatreg y Coleg Meddygaeth, sy'n cynnig rhaglen MSc Seiciatreg strwythuredig a pharatoi MRCPsych, gyda darlithoedd wythnosol gan arbenigwyr blaenllaw. Rydym hefyd yn cynnal partneriaethau hirdymor â Phrifysgol De Cymru, gan gefnogi ymchwil a hyfforddiant cydweithredol ar draws sawl campws. Drwy'r cysylltiadau academiaidd hyn a chefnogaeth Pwyllgor Ymchwil ein Bwrdd Iechyd, rydym yn meithrin diwylliant lle mae clinigwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn ymchwil, cyfrannu at arloesedd, a dilyn llwybrau gyrfa academiaidd ochr yn ochr â'u rolau clinigol.

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn dathlu cyflawniadau ein staff yn BIPCTM. Mae ein Gwobrau Seren Staff Blynnyddol yn darparu llwyfan pwrrpasol i gydnabod rhagoriaeth ar draws y sefydliad. Rydym hefyd wrth ein bodd bod cyfraniadau rhagorol ein tîm wedi cael eu cydnabod yn ehangach, gydag aelodau'n derbyn gwobrau mawreddog fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd y Flwyddyn 2024 ac Ail Wobr Iechyd Meddwl y Flwyddyn 2024.



Ein Diwylliant

Yn BIPCTM, rydym yn dîm gwydn, adnoddol a chefnogol, sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Rydym yn ymfalchïo yn ein dull cyfeillgar a pragmatig, gan sicrhau bod caredigrwydd a dealltwriaeth unigol yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Mae ein gwaith yn amrywiol ac yn heriol, ond rydym bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau i'n cleifion a'n gilydd. Gyda'n gilydd, rydym yn creu amgylchedd tosturiol lle mae cydweithwyr yn codi calonnau ei gilydd.

Mae ein staff yn cael eu denu at y rôl hon oherwydd pobl y Cymoedd a'r gymuned leol rydyn ni'n ei gwasanaethu. Mae seiciatreg yma yn fwy na swydd yn unig, mae'n ymwneud â thosturi at y rhai sy'n dioddef, ymrwymiad i weithio MDT ar y cyd, a gwerthfawrogiad o gymhlethdod a dyfnder rhyngweithiadau cleifion. Mae ein tîm yn gyfeillgar ac yn ofalgar, gan ddarparu ymdeimlad cryf o deyrngarwch a pherthyn. Gyda chyfleoedd i ymgysylltu mewn meysydd ymchwil ac arloesi sy'n ehangu, a rhaglen hyfforddi o ansawdd uchel, rydym yn creu amgylchedd lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u hysbrydoli gan y gwaith maen nhw'n ei wneud.

Mae aelodau ein tîm yn rhannu ymdeimlad o gyfiawnder cymdeithasol, gan wybod bod gan eu gwaith y potensial i drawsnewid bywydau, nid yn unig i gleifion, ond i'w teuluoedd, eu rhagolygon cyflogaeth, a'u cymunedau. Mae llawer yn dewis aros oherwydd eu bod yn teimlo cysylltiad dwfn â'u cleifion a'r gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud bob dydd.



Adran Tri | Y broses ymgeisio



CHWILIO

Mae swyddi wedi'u rhestru ar HealthJobsUK. Sefydlwch gyfrif Trac i weld a gwneud cais.

1



HYSBYSIADAU

Crëwch gyfrif a gosodwch rybuddion swyddi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am swyddi gwag. (Gweler y canllawiau yma / sganiwch y cod QR)

2



CAIS

Crëwch gyfrif a gosodwch rybuddion swyddi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am swyddi gwag. (Gweler y canllawiau yma / sganiwch y cod QR)

3



YMCHWIL

Cysylltwch â'r rheolwr cyflogi am drafodaeth anffurfiol

4



CYFWELIAD

Paratoi a mynychu cyfweliad gan ddefnyddio Gyrfa Cymru i gefnogi

5



CYNEFINO

Paratoi a mynychu cyfweliad gan ddefnyddio Gyrfa Cymru i gefnogi

6



Am drafodaeth gyfrinachol ynglŷn â gweithio i'n Cyfarwyddiaeth cysylltwch â:

Clare Williams

Cyfarwyddwr y Gwasanaeth - Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu



Clare.Williams11@wales.nhs.uk

Andrea Davies

Cyfarwyddwr Clinigol/Iechyd Meddwl



Andrea.Davies@wales.nhs.uk

Arif Alam

Cyfarwyddwr Clinigol/Iechyd Meddwl Oedolion



Arif.Alam@wales.nhs.uk

Timothy Chan

Cyfarwyddwr Gwasanaeth Grŵp Clinigol / Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn



Timothy.Chan@wales.nhs.uk

Cara Maiden

Cyfarwyddwr Clinigol CAMHS / Gwasanaethau Arbenigol



Cara.Maiden@wales.nhs.uk

Sarah Argent

Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaethau Arbenigol / CAMHS



Sarah.Argent@wales.nhs.uk

Gwybodaeth ddefnyddiol

Cadwch lygad ar weithgareddau CTM drwy ein dilyn ni ar ein cyfryngau cymdeithasol:

FaceBook:



www.facebook.com/CwmTafMorgannwg

LinkedIn:



www.linkedin.com/company/cwm-taf-morgannwg

X:



x.com/CwmTafMorgannwg

Instagram:



www.instagram.com/cwmtafmorgannwg/

